## P-04-660- Pwysau Ychwanegol sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Steffan Thomas a chasglwyd 1,049 llofnod a'r lein

### Geiriad y ddeiseb

*Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr heriau ariannol o ddarparu lefel briodol o ddarpariaeth addysgol mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth. Mae toriadau mewn gwariant yn cael effaith niweidiol ar gymunedau ysgolion, i'r graddau bod plant yn gadael eu sir breswyl (ac yn gynyddol, yn siroedd y gororau fel Powys, yn gadael Cymru) er mwyn parhau â'u haddysg. Mae ysgolion a'r chweched dosbarth ar fin cyrraedd pen eu tennyn, wedi'u llethu gan y bygythiad parhaus i gau. Mae ein plant yn cael eu gorfodi i deithio pellteroedd anghynaladwy ar is-ffyrdd, gan chwalu grwpiau o ffrindiau ac ychwanegu hyd at ddwy awr at y diwrnod ysgol. Mae addysg feithrin bellach dan fygythiad hefyd. Gyda thoriadau parhaus i gyllidebau ysgolion, sy'n achosi diswyddiadau dro ar ôl tro, mae'n amhosibl darparu addysg o'r ansawdd y mae athrawon wedi'u hyfforddi i'w darparu, ac y mae ein pobl ifanc yn ei haeddu.*

*Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio ar unwaith i'r heriau ychwanegol i addysg mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth, ac i gynyddu'r cyllid i ardaloedd fel Powys yn unol â hynny. Mae colli ein hysgolion yn datgan marwolaeth ein cymunedau a'n heconomïau lleol. Os yw Cymru ddatganoledig am*

*ffynnu, mae angen i'n Llywodraeth arwain y trafodaethau ar ariannu yn San Steffan. Mae angen i chi fod ar ein hochr ni!*

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- D/B

- D/B